Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Telerau ac Amodau Cyllid: sefydliadau addysg uwch

2025/26

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


Rhagair .....4

**Cymhwyso'r ddogfen hon .....5**

**Cyfrifoldebau Medr .....6**

Talu cyllid yn unol â'r ddeddfwriaeth .....6

Trefniadau ar gyfer talu cyllid .....6

Diogelu arian cyhoeddus .....6

Mynediad Archwilwyr at Wybodaeth .....6

Hawl i atal taliadau cyllid .....6

**Cyfrifoldebau'r sefydliad tuag atom ni a'i fyfyrwyr .....7**

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros gydymffurfio â'r ddogfen hon .....7

Stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus .....7

Strwythurau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw .....7

Cyfansoddiad y corff llywodraethu .....7

Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol .....8

Absenoldeb neu ddiswyddo swyddog atebol .....8

Cyfrifoldeb dros adrodd am ddigwyddiadau o bwys .....8

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu i sicrhau gwerth am arian .....9

Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr .....9

Cyfrifoldeb i ddarparu data i Medr ar gais .....10

Archwilio data .....10

Hysbysu am newidiadau i rolau uwch .....11

Sicrhau darpariaeth addysg o safon .....11

Monitro cwynion .....12

Cydymffurfio â'r Concordat Uniondeb Ymchwil .....12

Cydymffurfio â deddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i gyllid Medr .....13

Tâl cydnabyddiaeth .....13

Defnydd priodol o arian cyhoeddus .....13

Amgylchiadau lle bydd arian cyhoeddus yn dod yn ad-daladwy .....14

Gofyniad i danysgrifio i gyrff eraill .....14

Rheoli'r ystâd yn ddoeth .....14

Monitro gwerth y trysorlys a ddelir yn asedau'r darparydd .....15

Gwaredu asedau ac ynddynt fuddiant trysorlys .....15

Ymrwymiadau ariannol .....16

Paratoi datganiadau ariannol .....16

Goruchwylio gwaith archwilio .....17

Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau ... 17
**Ymgysylltu â darparwyr a'u cefnogi, a chamau diogelu ... 17**
Camau diogelu ... 17
**Materion eraill ... 18**
Diwygiadau i'r ddogfen hon ... 18
Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon ... 18
**Llofnod y Swyddog Atebol ... 19**
**Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu ... 19**
**Atodiad A: Geirfa ... 20**

## Rhagair

1. Mae'r ddogfen hon yn egluro telerau ac amodau'r Comisiwn Addysg Drydyddol (Medr), a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg i ddibenion darparu addysg a chynnal ymchwil, a darparu cyfleusterau a chynnal unrhyw weithgareddau eraill i ddibenion ddiben addysg ac ymchwil, neu'n gysylltiedig â hynny, ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2026.

2. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r cytundeb rhwng y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) a **enw'r darparydd** sy'n derbyn y cyllid hwn, fel y nodir yn y cylchlythyr Dyraniadau Cyllid blynyddol a dyraniadau cyllid eraill a wneir yn achlysurol.

3. Mae'r ddogfen hon yn disodli'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd (W15/32HE), a oedd yn cyn hynny wedi disodli'r Memorandwm Ariannol Diwygiedig a Chod Ymarfer Archwilio 2008 (W08/36HE).

4. **Nid yw'r** ddogfen hon yn disodli'r Cod Rheoli Ariannol (CRhA) (W17/16HE), ond mae'n gweithredu'n gyfochr â'r CRhA, a rhaid i sefydliadau a reoleiddir hefyd gydymffurfio â'r gofynion yn y CRhA.

5. Rydym wedi ystyried nifer o egwyddorion arweiniol wrth lunio'r ddogfen hon. Dyma'r egwyddorion:

    a. Diogelu buddiannau'r trysorlys ac atebolrwydd dros arian y trysorlys;
    b. Yr angen i gynnal hyder rhanddeiliaid yn y sector addysg bellach;
    c. Diogelu buddiannau'r myfyriwr;
    d. Lleihau'r baich rheoleiddio hyd yr eithaf a chael gwared ar ddyblygu;
    e. Cydnabod ymreolaeth sefydliadau;
    f. Atebolrwydd rhesymol a chymesur; a
    g. Mabwysiadu dull sy'n gyson â chyrff cyllido AU eraill y DU lle bo modd (er enghraifft, o ran gofynion ariannol ac ystyried buddiannau myfyrwyr), fel bod yr amgylchedd rheoleiddio yng Nghymru yn cefnogi gallu sefydliadau yng Nghymru i weithredu'n gystadleuol ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

6. Ceir diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn '**Atodiad A: Geirfa**'.

## Cymhwyso'r ddogfen hon

7. Nid yw'r ddogfen hon yn diystyru gofynion siarter y darparydd, statudau (neu ddogfennau cyfwerth) na'r gyfraith yn gysylltiedig â statws elusennol darparwyr, ond bwriedir iddi eu hategu a'u hatgyfnerthu. Ni fydd dim yn y telerau ac amodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparydd weithredu mewn modd a fyddai'n achosi iddo golli ei statws elusennol, neu a fyddai'n anghyson â'i siarter a statudau.

8. Pan fyddwn yn defnyddio'r term 'rhaid', mae hynny'n arwydd o amod neu ofyniad cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r cyllid a ddarperir o dan y ddogfen hon. Rhaid i sefydliadau gydymffurfio â'r gofynion hyn, a gallai methu â gwneud hynny beri bod Medr yn adennill cyllid ac/neu'n peidio â'i ddarparu o dan delerau'r ddogfen hon. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau a ystyrir gennym yn arfer da sylfaenol, ond nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol ar eu cyfer, neu lle nad ydym yn gosod amod yn gysylltiedig â chyllid o dan y ddogfen hon. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae darparydd wedi mabwysiadu'r darpariaethau 'dylai' (neu drefniadau amgen, sydd yr un mor gadarn) wrth asesu risg y darparydd.

9. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn, o fewn canllawiau dilynol, yn atodi gofynion gorfodol ychwanegol i amodau'r cyllid, ar ôl cynnal ymgynghoriad priodol â'r sector.

10. Daw'r ddogfen hon i rym ar 1 Awst 2025, ac mae'n trafod y cyfnod 1 Awst 2025 hyd 31 Gorffennaf 2026.

## Cyfrifoldebau Medr

### *Talu cyllid yn unol â'r ddeddfwriaeth*

11. Gwneir taliadau i'r sefydliad gan Medr i gefnogi gweithgareddau a bennir yn adrannau 65(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 1992.

12. Bydd taliadau'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 1992, yr amodau a nodir yn y ddogfen hon, a'r telerau ac amodau y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd yn unol â Deddf 1992, ac ar ôl cynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan adran 66(1) o'r Ddeddf. Yn unol ag adran 65(3) o Ddeddf 1992, telir cyllid yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau y gall Medr eu gosod, gan gynnwys y rhai a nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, yn unol ag adran 65(4) o Ddeddf 1992, ni fydd y telerau ac amodau hyn yn berthnasol i ddefnydd y sefydliad o unrhyw gyllid nad yw wedi'i ddarparu gan Medr.

13. Yn unol ag adran 66(2) o Ddeddf 1992, nid yw Medr yn dymuno atal y sefydliad rhag cynnal na datblygu ei gyllid o ffynonellau ar wahân i Medr.

### *Trefniadau ar gyfer talu cyllid*

14. Bydd medr yn talu symiau o'r holl gyllid addysgu a'r cyllid ymchwil i'r sefydliad yn erbyn proffil o daliadau, yr hysbyswyd amdano ar wahân drwy e-bost i Is-gangellorion/Benaethiaid a Chyfarwyddwyr Cyllid.

### *Diogelu arian cyhoeddus*

15. Mae Prif Weithredwr Medr wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Gan hynny, mae'n gyfrifol ac yn atebol i Lywodraeth Cymru am sicrhau bod y cyllid a dderbynnir gan Weinidog Addysg Cymru (neu ei olynydd) yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer, ac mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio â'r amodau cysylltiedig. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo gwerth da am arian drwy grantiau a delir i sefydliadau a chanllawiau cysylltiedig.

16. Mae'r holl gyllid a ddarperir gan Medr ar gael yn amodol ar ddefnydd o'r cyllid hwnnw.

17. Rhaid i Brif Weithredwr Medr ei fodloni ei hun fod gan gorff llywodraethu (neu gorff cyfwerth) darparydd drefniadau priodol ar gyfer rheolaeth fewnol (gan gynnwys rheoli ariannol a chyfrifyddu), a bod cyllid Medr yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer.

### *Mynediad Archwilwyr at Wybodaeth*

18. Archwilydd Cyffredinol Cymru, pennaeth Archwilio Cymru, yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a Medr. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl i archwilio cyfrifon unrhyw sefydliad sy'n derbyn grant gan Medr neu gyllid gan Lywodraeth Cymru ac i gynnal ymchwiliadau gwerth am arian.

### *Hawl i atal taliadau cyllid*

19. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, caiff Prif Weithredwr Medr atal taliadau grant, naill

ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl, ac naill ai'n barhaol neu dros dro, os yw'n barnu ei bod hi'n briodol ac yn rhesymol gwneud hynny er mwyn diogelu arian cyhoeddus.

20. Yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, dylai Prif Weithredwr Medr hysbysu corff llywodraethu'r sefydliad (neu gorff cyfwerth) ac/neu ei bwyllgor archwilio os oes ganddo bryderon difrifol ynghylch materion ariannol neu system rheolaethau mewnol y sefydliad.

## Cyfrifoldebau'r sefydliad tuag atom ni a'i fyfyrwyr

### *Cyfrifoldeb y corff llywodraethu dros gydymffurfio â'r ddogfen hon*

21. Corff llywodraethu'r darparydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Cyllid a chanllawiau cysylltiedig.

### *Stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus*

22. Mae corff llywodraethu'r sefydliad yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond yn unol â Deddf 1992, y telerau hyn, ac unrhyw amodau eraill y gall Medr eu rhagnodi o bryd i'w gilydd, y ceir defnyddio'r arian a dderbynnir gan Medr.

23. Rhaid i'r corff llywodraethu arfer ei ddoethineb yn rhesymol wrth defnyddio arian cyhoeddus ac ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol ar atebolrwydd neu briodolrwydd a gyhoeddir o dro i dro gan Medr, Archwilio Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Cyhoeddus Senedd Cymru.

### *Strwythurau llywodraethu cadarn, atebol a thryloyw*

24. Rhaid i ddarparwyr gael strwythurau llywodraethu cadarn ar waith i'w galluogi i nodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau a digwyddiadau chwythu'r chwiban yn effeithiol. Dylid rhoi gwybod i Medr ar unwaith am unrhyw achosion lle na chafwyd rheolaeth ar achosion o wrthdaro buddiannau a digwyddiadau chwythu'r chwiban, a bod hynny wedi arwain at fethiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod mewn fformat sy'n hygyrch i randdeiliaid, gan gynnwys Medr. Gweler paragraff 41 am ragor o wybodaeth.

25. Dylid tynnu sylw Cadeirydd y corff llywodraethu at faterion sy'n ymwneud ag annibyniaeth neu wrthdaro.

26. Mae Medr yn disgwyl i sefydliadau gofrestru i gadw'r ymrwymiadau a gweithio tuag at eu cyflawni, fel y nodir yn Siarter Lywodraethu'r Prifysgolion yng Nghymru.

### *Cyfansoddiad y corff llywodraethu*

27. Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried amrywiaeth ei gyfansoddiad, yn enwedig o ran nodweddion gwarchodedig. Ym mhob cam o'r ymarfer recriwtio ar gyfer aelodau newydd, dylid gofalu i beidio cymysgu gallu ymgeisydd â'i brofiad. Dylai ymdrechion recriwtio ar gyfer aelodaeth o gyrff llywodraethu fod yn rhagweithiol a thargedu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Nid ydym yn ystyried ei bod yn ddigonol hysbysebu swydd wag yn agored heb gymryd camau rhagweithiol i gyfeirio'r

hysbyseb i sylw grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

28. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Prif Weithredwr Medr os na ddefnyddiwyd ymgynghoriaeth chwilio allanol na hysbysebu agored i benodi aelod o'r corff llywodraethu. Nid yw defnyddio ymgynghoriaeth chwilio allanol na hysbysebu agored yn amod ar gyfer derbyn y grant, ond ystyriwn fod hynny'n arfer da.

29. Bydd Medr yn ystyried cyfansoddiad y corff llywodraethu ac adroddiad y darparydd ar ei bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'i broses Adolygu Risgiau Darparydd.

*Rôl a chyfrifoldebau'r swyddog atebol*

30. Pennaeth darparydd sy'n bennaf gyfrifol am arwain materion academaidd a rheolaeth weithredol y sefydliad.

31. Rhaid i'r corff llywodraethu ddynodi unigolyn (pennaeth y sefydliad fel arfer, ond nid o reidrwydd) fel y 'swyddog atebol' i gynorthwyo a galluogi'r corff llywodraethu i gyflawni ei gyfrifoldebau i adrodd wrth Medr.

32. Efallai y bydd yn ofynnol i'r swyddog atebol ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, ochr yn ochr â Phrif Weithredwr Medr, ar faterion sy'n ymwneud â grantiau i'r sefydliad.

33. Rhaid i'r swyddog atebol hysbysu'r corff llywodraethu ar unwaith os ymddengys i'r swyddog atebol, ar unrhyw adeg, fod unrhyw gamau neu bolisi sy'n cael eu hystyried gan y corff llywodraethu yn anghydnaws â thelerau'r ddogfen hon. Os bydd y corff llywodraethu yn penderfynu bwrw ymlaen serch hynny, rhaid i'r swyddog atebol hysbysu Prif Weithredwr Medr mewn ysgrifen ar unwaith.

*Absenoldeb neu ddiswyddo swyddog atebol*

34. Os, ym marn Prif Weithredwr Medr, oes tystiolaeth o fethiant difrifol yn gysylltiedig â goruchwylio a rheoli arian cyhoeddus, bydd yn codi hynny fel bo'n briodol â'r swyddog atebol dan sylw ac/neu â chadeirydd y corff llywodraethu; darparu’r dystiolaeth berthnasol; ac yn gofyn ac yn ystyried ymateb.

*Cyfrifoldeb dros adrodd am ddigwyddiadau o bwys*

35. Rhaid i swyddog atebol y sefydliad hysbysu Medr am unrhyw wendid difrifol, fel bygythiad sylweddol ac uniongyrchol i sefyllfa ariannol y sefydliad, twyll sylweddol neu fethiant cyfrifyddu mawr a'r camau sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

36. Dylai swyddog atebol y darparydd hysbysu Medr am unrhyw dwyll sydd, er nad yw'n sylweddol, yn arwydd o wendid difrifol mewn rheolaeth ariannol a'r camau sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

37. Dylai swyddog atebol y darparydd hysbysu Medr am unrhyw dwyll a adroddir i'r Heddlu, a gyflawnwyd mewn gwirionedd neu a allai fod wedi cael ei gyflawni, yn unol

â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau[1].

38. Os yw mater neu wendid wedi'i nodi, neu os oes ymchwiliad yn cael ei gynnal i hynny, gan gorff cyllido neu reoleiddio ar wahân i Medr, rhaid i'r swyddog atebol ein hysbysu ynghylch hyn.

39. Diffinnir 'gwendid difrifol' fel un sydd wedi arwain at, neu a allai arwain at, golli swm sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, data, buddiolwyr neu enw da darparydd.

40. Os bydd darparwyr yn tybio bod rheswm i gredu bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, fel y nodir drwy eu prosesau eu hunain, gan gynnwys drwy gwynion, mae'n rhaid iddynt drin y digwyddiad hwnnw fel digwyddiad hysbysadwy, a hysbysu Medr ar y cyfle cyntaf.

41. Rhaid i swyddog atebol y darparydd hysbysu Medr am unrhyw achosion lle na chafodd digwyddiadau gwrthdaro buddiannau a chwythu'r chwiban eu rheoli, a lle arweiniodd hynny at fethiant: dylid adrodd y rhain wrth Medr ar unwaith. Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb ofyn am ganiatâd y darparydd yn gyntaf.

42. Rhaid i swyddog atebol y darparydd hysbysu Medr am unrhyw ddigwyddiadau o bwys sy'n gysylltiedig ag ansawdd. Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heb ofyn am ganiatâd y darparydd yn gyntaf.

43. Rhaid i swyddog atebol y darparwyr hysbysu Medr am unrhyw ddigwyddiadau o bwys a adroddwyd wrth gorff rheoleiddio arall. Bydd gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu fel arfer heb ofyn am ganiatâd y darparydd yn gyntaf.

44. Rhaid i swyddog atebol y sefydliad hysbysu Medr am unrhyw achos o dorri neu beidio cydymffurfio â deddfwriaeth y DU.

### *Cyfrifoldeb y corff llywodraethu i sicrhau gwerth am arian*

45. Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian o arian cyhoeddus. Rhaid iddo barhau i adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli'r holl adnoddau sydd o dan ei reolaeth, gan ystyried canllawiau ar arfer da a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Medr, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.

### *Cyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i Medr*

46. Rhaid i'r darparydd ddarparu i Medr, neu i asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar Medr i arfer eiswyddogaethau o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

47. Rhaid i'r sefydliad roi mynediad i Medr i'r holl lyfrau, cofnodion, gwybodaeth, systemau ac asedau. Gall Medr ofyn i unrhyw swyddog roi unrhyw esboniad a ystyrir

[1] https://www.gov.uk/guidance/how-to-report-a-serious-incident-in-your-charity

yn angenrheidiol ganddo er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau. Bydd llyfrau a chofnodion y sefydliad hefyd ar gael i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

48. Os yw'r caiff grant ei ordalu i ddarparydd yn sgil defnydd Medr o ddata amcangyfrifedig, mae Medr yn cadw'r hawl i adennill unrhyw swm a ordalwyd, plws llog, yn unol â pharagraffau 76 i 80 isod.

49. Gofynnir i ddaparwyr ddarparu data y maent wedi'u casglu i Medr neu i gyrff eraill sy'n gweithredu ar ran Medr. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn gweithredu fel asiant ar gyfer y sefydliad ac ar gyfer Medr wrth gasglu gwybodaeth sydd ei hangen ar Medr a throsglwyddo'r wybodaeth honno i Medr a/neu i Lywodraeth Cymru ar ran Medr. Bydd y data hyn yn aml yn cynnwys manylion personol ar gyfer myfyrwyr a/neu staff. Er mwyn sicrhau y gall sefydliadau a Medr gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (EU 2016/679), rhaid i ddarparwyr eu bodloni eu hunain wrth gasglu data fod myfyrwyr ac/neu staff yn ymwybodol bod data yn cael eu casglu i'r dibenion hyn. Rhaid i ddarparwyr hysbysu myfyrwyr a staff y bydd eu data personol yn cael eu cyflwyno i HESA a rhaid iddynt sicrhau bod hysbysiadau casglu HESA ar gael i bob testun data perthnasol. Bydd y darparydd yn cydweithredu â Medr fel bo'r angen yn rhesymol er mwyn sicrhau bod Medr, neu unrhyw asiantau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, yn gallu cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 o ran prosesu gwybodaeth a gyflenwir gan y sefydliad.

### *Cyfrifoldeb i ddarparu data i Medr ar gais*

50. Rhaid i'r darparydd ddarparu gwybodaeth ddibynadwy a chywir i Medr, HESA neu sefydliadau eraill ar gais gan Medr, am y myfyrwyr sydd wedi ymrestru gyda'r darparydd ac am y gwerthoedd credyd sy'n gysylltiedig â'r myfyrwyr hynny, ac unrhyw ddata eraill sy'n ofynnol, boed hynny i gyfrifo cyllid neu i ddibenion adrodd a dadansoddi eraill.

51. Cynhelir gwiriadau dilysu ar y data a ddarperir gan ddarparwyr ac a ddefnyddir i ddibenion cyllido gan Medr. Mae'r diffiniadau a ddefnyddir ar y ffurflenni data wedi'u nodi yn arolygon 'Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch' (HESES) a 'Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) Ymrestriadau Addysg Uwch' Medr a hefyd yn llawlyfrau cofnodion HESA.

52. Mae gan Medr yr hawl i ddefnyddio ei amcangyfrifon ei hun o ymrestriadau myfyrwyr, gwerthoedd credyd cysylltiedig ac unrhyw ddata eraill ar gyfer darparwyr nad ydynt yn dychwelyd data mewn pryd i Medr, HESA neu sefydliadau eraill, neu lle ystyrir bod data o ansawdd annigonol.

53. Rhaid i'r darparydd gydymffurfio â'r cod ymarfer ar gyfer casglu data addysg uwch a hysbysu Medr am unrhyw achos o dorri'r Cod. Rhaid i'r darparydd gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod fel rhan o'r datganiad sicrwydd blynyddol[2].

### *Archwilio data*

54. Gall yr holl ddata a ddefnyddir mewn cyfrifiadau cyllido fod yn destun archwiliad data

[2] https://www.hesa.ac.uk/innovation/data-landscape/Codes-of-practice/Supply-side

allanol. Gall data eraill a ddefnyddir gan Medr i ddibenion monitro neu ddadansoddi hefyd gael eu cynnwys yng nghwmpas archwiliad allanol. Yn ogystal â'r addasiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 50 i 53 uchod ar gyfer addysgu sy'n seiliedig ar gredydau, gellir addasu'r cyllid yn sgil gwallau neu hepgoriadau a ganfuwyd yn ystod archwiliad os yw'r rhain wedi peri bod darparydd wedi derbyn dyraniad cyllid uwch nag y dylai fod wedi gwneud. Os yw'r addasiad yn llai na £50,000, bydd Medr yn arfer ei ddoethineb, ar sail amgylchiadau canfyddiadau'r archwiliad, i benderfynu a ddylid cymhwyso'r addasiad ai peidio. Os yw'r addasiad yn fwy na £50,000, bydd yn cael ei gymhwyso'n llawn.

*Hysbysu am newidiadau i rolau uwch*

55. Pan fydd aelod o'r corff llywodraethu neu un o'i bwyllgorau, neu glerc i un o'r rhain, yn gadael ei swydd oherwydd anghytundeb, diswyddiad neu ymddiswyddiad gorfodol, rhaid i'r swyddog atebol ein hysbysu ar unwaith o'r rhesymau dros yr ymadawiad.

56. Rhaid i'r swyddog atebol hefyd ein hysbysu ar unwaith am ymddiswyddiad neu ddiswyddiad aelod o'r uwch dîm gweithredol oherwydd anghytundeb, diswyddo neu ymddiswyddiad gorfodol. Diffinnir aelod o'r uwch dîm gweithredol yn unol â diffiniad SAA 102 ar gyfer 'personél rheoli allweddol'; hynny yw, "y bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddwr (boed yn weithredol neu fel arall) i'r endid hwnnw". Mae hyn yn gyson â'r dull y mae'n ofynnol i sefydliadau ei fabwysiadu wrth nodi eu huwch dîm gweithredol ar gyfer datganiadau ariannol o dan Y Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir ar gyfer AB/AU[3].

*Sicrhau darpariaeth addysg o safon*

57. Rhaid i'r darparydd gydymffurfio â phrosesau asesu ansawdd Medr fel y'u nodir ar gyfer sefydliadau a reoleiddir yn unol â Deddf AU (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

58. Mae'n ofynnol i bob darparydd a reoleiddir gyhoeddi Siarter Myfyrwyr a Chytundeb Perthynas y dylid eu hadolygu'n flynyddol mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr.

59. Mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob darparydd a reoleiddir. Rydym yn arfer y ddyletswydd hon yn rhannol drwy gomisiynu adolygiadau sicrhau ansawdd allanol rheolaidd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o ddarparwyr a reoleiddir, gan gydymffurfio â gofynion Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer adolygiadau o'r fath.

60. Gallai amrywiaeth o ffactorau achosi risg y bydd ansawdd yr addysg yn dod yn annigonol. Byddwn felly'n monitro amrywiaeth o ddangosyddion drwy gydol y flwyddyn i ffurfio ein barn ynghylch a yw'n debygol y bydd ansawdd addysg yn dod yn annigonol. Gallai'r broses hon lywio adolygiadau sicrhau ansawdd allanol a byddai'n cael ei llywio gan adolygiadau o'r fath. Mae ein gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg yn esbonio sut y byddwn yn pennu'r risg y bydd darpariaeth yn dod yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol. Fel y nodir uchod, rhaid trin

[3] https://www.frc.org.uk/getattachment/e1d6b167-6cdb-4550-bde3-f94484226fbd/FRS-102-WEB-Ready-2015.pdf

achosion sy'n rhoi rheswm i gredu bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol, fel digwyddiadau hysbysadwy.

61. Mae gan Medr fuddiant rheoleiddiol clir i sicrhau bod darparwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus yn darparu gwerth am arian ac yn gwneud defnydd cyfrifol o'r arian hwnnw, fel y disgrifir yn y ddogfen hon. Mewn achosion lle mae'r ansawdd yn annigonol, a hefyd lle nodwyd gennym fod ansawdd yn debygol o ddod yn annigonol, byddwn yn disgwyl i'r sefydliad gymryd camau unioni digonol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau. Cyn gweithredu ymyrraeth statudol, byddwn yn cysylltu'n ffurfiol neu'n anffurfiol â sefydliadau. Ar gyfer darparwyr a reoleiddir, gall Medr hefyd gymryd camau drwy ei bŵer rheoleiddio o dan Ddeddf AU (Cymru) 2015.

*Monitro cwynion*

62. Rhaid i ddarparwyr gael proses gadarn ar waith er mwyn ymdrin â chwynion a wneir gan ddysgwyr, staff a thrydydd partïon. Rhaid darparu adroddiad ar gwynion i gyrff llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, sy'n rhoi sicrwydd i'r Corff Llywodraethu fod cwynion yn cael eu rheoli'n briodol.

*Cydymffurfio â'r Concordat Uniondeb Ymchwil*

63. Mae Medr yn un o lofnodwyr yConcordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil, ynghyd â Phrifysgolion y DU, y tri chorff arall sy'n cyllido addysg uwch yn y DU, Ymchwil ac Arloesi’r DU, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd ac Ymddiriedolaeth Wellcome. Ein disgwyliad pendant yw y dylai pob prifysgol yng Nghymru gydymffurfio â thelerau'r Concordat. Gofynnir i bob darparydd gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Concordat ar y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol.

64. Bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion yng Nghymru: ddarparu copi o’u polisïau ar adolygu a chymeradwyo moesegol a mecanweithiau ar gyfer adrodd am honiadau o gamymddwyn; cyfeirio at yr adran ar wefan y brifysgol lle ceir gwybodaeth am uniondeb ymchwil; darparu gwybodaeth am ymchwiliadau i gamymddwyn mewn ymchwil i gyllidwyr ymchwil ac i gyrff proffesiynol a/neu statudol fel sy'n ofynnol yn eu hamodau grant ac mewn rhwymedigaethau cyfreithiol, proffesiynol a statudol eraill.

65. Mae Medr yn un o lofnodwyr y Concordat i Hybu Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr. Y mae hefyd yn aelod o Grŵp Strategaeth y Concordat (GSC) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff ariannu, darparwyr addysg uwch, a sefydliadau a chymdeithasau eraill oddi mewn ac oddi allan i addysg uwch. Mae GSC yn gyfrifol am hyrwyddo a gweithredu egwyddorion y Concordat Datblygu Ymchwilwyr ar draws y DU. Ein disgwyliad pendant yw y bydd pob darparydd addysg uwch yng Nghymru yn llofnodi'r Concordat ac yn mabwysiadu ei egwyddorion, ei safonau a'i arferion da. Gofynnir i bob darparydd addysg uwch roi cadarnhad o'i statws fel llofnodwr ac egluro sut mae'n bodloni ei gyfrifoldebau fel llofnodwr, a'i resymau dros beidio llofnodi'r Concordat os nad yw'n llofnodwr, yn y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol.

66. Os ydynt yn llofnodwyr i'r Concordat, dylai darparwyr addysg uwch fod yn gweithredu cyfrifoldebau llofnodwyr fel y'u nodir yn y Concordat. Mae'r Concordat yn offeryn gwella parhaus sy'n eiddo i'r sector, a gall y cyfrifoldebau hyn newid dros amser wrth i'r Concordat gael ei adolygu. Bydd Medr yn monitro sut mae darparwyr yn

gweithredu cyfrifoldebau llofnodwyr y Concordat drwy'r Datganiadau Sicrwydd Blynyddol, lle dylai sefydliadau gynnwys eu Cynllun Gweithredu Concordat blynyddol a'u hadroddiad blynyddol i'w Corff Llywodraethu.

*Cydymffurfio â deddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i gyllid Medr*

67. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod eu defnydd o gyllid yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

*Tâl cydnabyddiaeth*

68. Rhaid i'r sefydliad ddilyn polisi cyflogau'r sector cyhoeddus drwy ystyried tegwch, yr angen i recriwtio, ysgogi a chadw staff a fforddiadwyedd o fewn y terfynau a osodir gan y setliad grant.

69. Rhaid i'r darparydd gydymffurfio â'r holl ddatgeliadau gofynnol ynghylch cyflog ei staff â chyflog uwch yn ei ddatganiadau ariannol archwiliedig, fel y nodir yng Nghyfarwyddyd Cyfrifon cyfredol Medr i sefydliadau.

70. Dylai'r darparydd ddilyn arferion da sydd wedi'u cyhoeddi o ran cyflogau, gan gynnwys yr egwyddorion a nodir yng Nghod Cyflogau Staff Uwch CUC (2021).

*Defnydd priodol o arian cyhoeddus*

71. Ni cheir defnyddio cyllid Medr fel cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai cyhoeddus.

72. Ni chaiff y darparydd ond defnyddio arian y Cyngor ar gyfer gweithgareddau sy'n gymwys i'w cyllido, fel y nodir yn is-adrannau 65(2)(a), (b) ac (c) o Ddeddf 1992. Mae'r amod hwn hefyd yn berthnasol lle bo'r sefydliad yn trosglwyddo rhan o'i grant darparydd i endid arall sydd ar wahân yn gyfreithiol er mwyn darparu gweithgaredd sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Mae hynny'n cynnwys trosglwyddo grantiau i golegau yn y sector addysg bellach a lle caiff darpariaeth ei chyflenwi drwy drefniadau is-gontractio neu drwy is-gwmni.

73. Os trosglwyddir cyllid a ddarparwyd gan Medr i endid arall sydd ar wahân yn gyfreithiol:

    a. Bydd y darparydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid a rhaid iddo gadw goruchwyliaeth ddigonol er mwyn gallu sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddibenion sy'n gymwys o dan y Ddeddf. Rhaid i'r oruchwyliaeth hon gwmpasu, ymhlith meysydd eraill, atebolrwydd ariannol a sicrhau ansawdd. Rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar ddatganiad ysgrifenedig o'r trefniadau. Rhaid i'r datganiad hwn sicrhau nad yw'r gadwyn atebolrwydd ar gyfer defnyddio cyllid Medr yn cael ei thorri, a bod rhannau perthnasol y telerau ac amodau cyllid hyn yn berthnasol i ddefnyddiwr terfynol y cyllid; ac
    b. Mae hyn yn berthnasol ac eithrio mewn achosion lle mae'r corff y mae'r darparydd yn trosglwyddo arian iddo hefyd yn sefydliad a gyllidir yng Nghymru. Mewn achosion o'r fath, fel y nodir yn Adran 65(3A) o Ddeddf 1992,rhaid i'r darparydd gael ein caniatâd cyn trosglwyddo cyllid Medr i'r sefydliad cysylltiedig. Os bydd Medr yn cydsynio i drosglwyddo cyllid, bydd Medr yn rhoi

rhybudd i'r holl bartïon gan ddatgan pa barti a fydd yn cael ei ddal yn atebol am y cyllid.

74. Rhaid i'r darparydd ddefnyddio unrhyw gyllid y mae Medr wedi'i glustnodi i ddiben refeniw neu gyfalaf penodol i'r dibenion hynny'n unig.

75. Os caiff unrhyw gyllid gan Medr a glustnodwyd neu a ddarparwyd ar gyfer dibenion penodol ei ddefnyddio i ddibenion eraill, rhaid i'r sefydliad hysbysu Medr ar unwaith am y defnydd hwnnw.

*Amgylchiadau lle bydd arian cyhoeddus yn dod yn ad-daladwy*

76. O dan adrannau 65(4) o Ddeddf 1992, gall Medr fynnu bod y sefydliad yn ad-dalu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, arian a dderbyniwyd gan Medr os nad yw'r darparydd yn cydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau a osodwyd gan Medr yn gysylltiedig â thalu'r arian hwnnw.

77. Gallwn ofyn i ddarparydd ad-dalu arian os yw wedi derbyn gormod o gyllid.

78. Mae gan Medr gyfrifoldeb i sicrhau yr asesir ansawdd y ddarpariaeth a ariennir ganddo, ac mae'n cadw'r hawl i orfodi cosbau ariannol ac/neu dynnu arian yn ôl oddi wrth sefydliad os yw Medr o'r farn fod ansawdd y ddarpariaeth yn anfoddhaol.

79. Mae Medr hefyd yn cadw'r hawl i fynnu bod y darparydd yn talu llog ar ddau y cant uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod y mae swm sy'n ddyledus i Medr o dan y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, neu unrhyw amod arall, yn parhau i fod heb ei dalu.

80. Daw gwerth buddiant y Trysorlys yn y sefydliad(paragraff 89 i 91)) yn ad-daladwy ar unwaith os bydd y darparydd yn mynd yn fethdalwr, gan gynnwys datodiad neu fynd i ddwylo gweinyddwyr, neu os yw'n diddymu neu'n trosglwyddo ei ymrwymiad i ryw gorff arall, neu yw'n profi unrhyw ddigwyddiad cyfatebol.

*Gofyniad i danysgrifio i gyrff eraill*

81. O dan Ddeddf 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004, mae'n ofynnol i sefydliadau danysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn y drefn honno.

82. Dylai darparwyr gael gwybod am y canllawiau diweddaraf oddi wrth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, neu unrhyw gyrff olynol sy'n cyflawni'r rolau hyn.

83. Cyfrifoldeb darparwyr yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

*Rheoli'r ystâd yn ddoeth*

84. Dylid cynnal arolwg rheolaidd o gyflwr yr ystadau a rhoi ystyriaeth i hynny yn y strategaeth ystadau.

85. Rhaid i ddarparwyr roi strategaeth a chynllun rheoli carbon ar waith. Dylid monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun drwy'r strwythur llywodraethu.

86. Dylai sefydliadau weithio tuag at gyrraedd Sero Net.

87. Dylai darparwyr barhau i adolygu'r tir a'r adeiladau a ddelir ganddynt, gan anelu i resymoli a gwaredu'r rhai nad oes eu hangen mwyach ym marn y sefydliadau.

88. Dylid gweithredu prosesau i sicrhau bod gofod yn cael ei reoli'n effeithiol o fewn y darparydd.

*Monitro gwerth y trysorlys a ddelir yn asedau'r darparydd*

89. Rhaid cyflwyno datganiad blynyddol i Medr yn manylu ar werth gros a gwerth dibrisiedig buddiant y trysorlys yn asedau'r sefydliad. Rhaid i'r darparwr hefyd fanylu ar y tâl dibrisiant i'r asedau a wnaed o fewn y flwyddyn yn ogystal â gwerth a natur unrhyw ychwanegiadau neu namau. Bydd Medr yn cyhoeddi ffurflen i'w dychwelyd yn flynyddol gan y darparydd er mwyn gallu nodi'r elfennau hyn.

90. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau o ran gwaredu tir ac adeiladau elusennol, sy'n cynnwys gofynion ynghylch y pris gwaredu mewn perthynas â gwerth marchnad yr ased.

91. Gan mai ond yn ôl disgresiwn Medr y caiff buddiant y Trysorlys ei ad-dalu wrth waredu ased (a fyddai'n cael ei ystyried yn anarferol) neu yn yr amgylchiadau eithriadol o fynd yn fethdalwr, nid oes angen ei ddatgelu fel atebolrwydd dibynnol yng nghyfrifon y darparydd.

*Gwaredu asedau ac ynddynt fuddiant trysorlys*

92. Mae Paragraff 7 o Ddogfen Fframwaith CNLC: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddiogelu'r asedau a ariennir drwy fuddiant y trysorlys o fewn sefydliadau. Medr sydd bellach yn gyfrifol am hyn.

93. Rhaid i ddarparwyr ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan Medr cyn gwaredu asedau (yn llawn, neu'n rhannol) y ceir buddiant trysorlys ynddynt, ac y mae eu prisiant yn uwch na £25,000 ar werth y farchnad.

94. Rhaid i ddarparwyr hefyd ofyn i Medr am ganiatâd os ydynt yn bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio ased sy'n cynnwys buddiant y trysorlys i'r diben a fwriadwyd ar ei gyfer.

95. Wrth roi caniatâd, bydd Medr yn pennu i ba raddau y mae'r buddsoddiad cyhoeddus yn ad-daladwy.

96. Os yw eiddo sy'n cynnwys buddiant y trysorlys yn cael ei brydlesu i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau heblaw llety gwyliau neu'r rhai sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan Medr o dan adran 65(2) o Ddeddf 1992, bydd yn rhaid talu rhent neu gyfran briodol ohono i Medr (ar ôl didynnu unrhyw rent tir neu daliadau, costau gweinyddol ac unrhyw wariant arall sydd ei angen i gadw'r eiddo mewn cyflwr sy'n denu'r rhent hwnnw).

97. Bydd elw yn sgil gwerthu asedau’r Trysorlys yn parhau i fod yn eiddo i’r Trysorlys ac felly’n parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r ddogfen hon.

98. Gall Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, bennu amodau lle na fyddent yn cymhwyso'r gofynion mewn amgylchiadau lle byddai arian cyhoeddus yn dod yn daladwy.

*Ymrwymiadau ariannol*

99. O dan Adran69(4) o Ddeddf 1992, mae gan Medr ddyletswydd i ddiogelu buddiant y trysorlys yn natblygiad unrhyw dir, adeilad neu ased arall:

i. a gaffaelwyd gan y sefydliad drwy ddefnyddio arian cyhoeddus; a
ii. bod amod ynghlwm wrth yr arian cyhoeddus sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliad gael caniatâd y Gweinidog cyn codi cyllid cyfalaf gan ddefnyddio'r asedau hynny fel sicrwydd.

100. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparydd gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Medr os yw'r darparydd yn dymuno caniatáu sicrwydd dros ased o'r fath. Wrth geisio cymeradwyaeth o'r fath gan Medr rhaid i'r sefydliad ddangos ei gydymffurfiaeth mewn ysgrifen.

*Paratoi datganiadau ariannol*

101. Rhaid paratoi datganiadau ariannol ar gyfer y darparydd (neu gyfrifon grŵp cyfunol os yw'r sefydliad yn rhiant-endid) yn unol â'r SORP (‘Statement of recommended practice: accounting for further and higher education).

102. Rhaid i'r darparydd sicrhau bod copïau o'r datganiadau ariannol cyfunol ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol.

103. Rhaid i ddarparwyr a'u harchwilwyr allanol gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon cyfredol a gyhoeddwyd gan Medr.

104. Rhaid i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi gan swyddog atebol a chan y Cadeirydd neu aelod arall o'r corff llywodraethu a benodir gan y corff hwnnw. Os yw'r darparydd yn gwmni, bydd gofynion Deddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwmnïau 1989) yn berthnasol ar gyfer llofnodwyr y datganiadau ariannol.

105. Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn natganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiadau cysylltiedig y darparydd:

a. Rhaid i'r aelodau gadarnhau yn yr adroddiad blynyddol eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau a'r ansicrwydd perthnasol sy'n wynebu'r darparydd, gan gynnwys y rhai a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd neu ei hylifedd. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'r risgiau hynny ac egluro sut maent yn cael eu rheoli neu eu lliniaru;
b. Datganiad gan yr aelodau ynghylch a ydynt yn ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ar ôl ystyried y prif risgiau ac ansicrwydd perthnasol sy'n bodoli dros

gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol;

c. Disgrifiad o bolisi'r corff llywodraethu ar amrywiaeth ac aelodaeth, gan gynnwys rhywedd; unrhyw amcanion mesuradwy y mae wedi'u gosod ar gyfer gweithredu'r polisi; a chynnydd o ran cyflawni'r amcanion.

106. Efallai y byddwn yn darparu mwy o fanylion a gofynion ychwanegol ynghylch rhai o'r uchod yng nghyfarwyddyd cyfrifon Medr i ddarparwyr, a gyhoeddir mewn cylchlythyr blynyddol.

### *Goruchwylio gwaith archwilio*

107. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y darparydd yn cydymffurfio â'r gofynion archwilio a nodir yn y Cod Rheoli Ariannol ac mewn unrhyw gyfarwyddiadau eraill a lunnir ac a gyhoeddir gan Medr mewn ymgynghoriad â darparwyr.

### *Hawl mynediad Medr ar gyfer ymchwiliadau*

108. Gall Medr gynnal unrhyw ymchwiliadau a ystyrir yn angenrheidiol ganddo. Os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, ceir didynnu cost ymchwiliadau ychwanegol o'r fath, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o grant refeniw'r darparydd.

109. Gall Medr gynnal adolygiadau er mwyn gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth reoli a gweithredu'r darparydd, gan gynnwys astudiaethau gwerth am arian. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd gynnal astudiaethau gwerth am arian sy'n edrych ar ddefnydd y darparydd o adnoddau.

110. Gall archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru ac/neu Archwilio Cymru ymuno â Medr ar ymweliadau â darparwyr. Ar ymweliadau o'r fath, ni fydd archwilwyr Llywodraeth Cymru nac/neu Archwilio Cymru ond yn trafod y modd y mae Medr yn cyflawni tasgau, ac ni fyddant hwy eu hunain yn archwilio trefniadau o fewn y darparydd.

## Ymgysylltu â darparwyr a'u cefnogi, a chamau diogelu

111. Rhaid i Medr fod yn hyderus bod gan y cyrff y mae'n eu cyllido drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol i ddiogelu arian cyhoeddus a fuddsoddir, a threfniadau i sicrhau gwerth am arian o arian cyhoeddus.

### *Camau diogelu*

112. Mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu â ni a mynd i'r afael â materion cyn bod angen inni weithredu ein datganiad ymyrraeth.

113. Os na fydd darparydd yn gweithredu unrhyw gamau y cytunwyd arnynt, bydd Medr yn gofyn am esboniadau ac, os yw'n briodol a bod hynny wedi'i gyfiawnhau, yn rhoi rhybuddion i wella.

114. Os bydd y darparydd yn parhau i fethu mynd i'r afael â'r risgiau a'r materion, bydd y darparydd yn cael gwybod y bydd un neu fwy o'r camau diogelu yn cael eu gweithredu. Hoffem bwysleisio'n fawr mai dewis olaf fydd hyn, a cham na fyddwn yn disgwyl ei gymryd yn aml.

115. Dyma'r ddau gam diogelu sydd ar gael i Medr, ac a allai gael eu defnyddio os yw pob ymgais arall i sicrhau cydymffurfiaeth yn aflwyddiannus:

a. **Ariannol** – drwy adennill cyllid grant neu wrthod mynediad at gyllid grant yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad at grantiau penodol neu at gyllid dewisol. Yn y pen draw, gall Medr dynnu cyllid yn ôl yn gyfan gwbl, os bydd amgylchiadau'n cyfiawnhau camau o'r fath; a
b. **Gwybodaeth** – drwy gyhoeddi ein pryderon am ddarparydd lle ceir rhesymau cryf dros wneud hynny a lle bo hynny er budd y cyhoedd neu'r holl fyfyrwyr (myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, a chyn-fyfyrwyr lle bo'n berthnasol).

116. Yn ogystal â hynny, gall Medr:

a. roi cyngor i'r Comisiwn Elusennau lle gallai sefydliad fod wedi torri ei rwymedigaethau elusennol; ac/neu
b. roi cyngor i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol lle gallai achos o wahaniaethu fod wedi digwydd.

## Materion eraill

### *Diwygiadau i'r ddogfen hon*

117. Ar ôl ymgynghori â'r darparydd a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli'r sefydliad a ystyrir yn briodol gan Medr, gall Medr o bryd i'w gilydd ddiwygio, dirymu neu ychwanegu at unrhyw un o'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon. Gall y sefydliad ei hun wneud cynigion i Medr am newidiadau o'r fath.

### *Dehongli datganiadau yn y ddogfen hon*

118. Bydd Medr yn datrys cwestiynau ynghylch dehongli unrhyw ddatganiad yn y ddogfen hon ar ôl ymgynghori â'r darparydd a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli'r darparydd a ystyrir yn briodol gan Medr.

## Llofnod y Swyddog Atebol

119. Rhaid i swyddog atebol **(enw'r darparydd)** nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n esbonio'r telerau ac amodau ar gyfer taliadau cyllid gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i gorff llywodraethu **(enw'r darparydd)** o'r cyllid a ddarperir gan y Gweinidog Addysg.

Llofnod………………………………………………......................................

Dyddiedig ……………………………………

## Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethu

120. Rhaid i Gyfarwyddwr Cyllid **(enw'r darparydd)** nodi isod ei fod wedi derbyn a chymeradwyo'r Telerau ac Amodau Cyllid, sy'n esbonio'r telerau ac amodau ar gyfer taliadau cyllid gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) i gorff llywodraethu **(enw'r darparydd)** o'r cyllid a ddarperir gan y Gweinidog Addysg.

Llofnod………………………………………………......................................

Dyddiedig ……………………………………

## Atodiad A: Geirfa

Yn y Telerau ac Amodau Cyllid hyn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | Y 12 mis o 1 Awst i 31 Gorffennaf |
| **Cyfnod cyfrifyddu** | Y cyfnod a gwmpesir gan ddatganiadau ariannol archwiliedig y sefydliad, fel arfer y 12 mis o 1 Awst i 31 Gorffennaf |
| **Y Comisiwn** | Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) |
| **Y Cyngor** | Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr). |
| **Swyddog atebol** | Pennaeth sefydliad sy'n gyfrifol ac yn atebol i Medr (ac yn y pen draw i Senedd Cymru) am sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio arian Medr mewn ffyrdd sy'n gyson â'r dibenion y rhoddwyd yr arian hwnnw ar eu cyfer ac yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth hynny. Mae'r rhain yn cynnwys yr amodau a nodir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y ddogfen hon |
| **Cyllid y Trysorlys** | Grant neu gymorth grant gan y llywodraeth. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae'r diffiniad o'r cyllid hwn yn cynnwys grant neu gymorth grant a delir gan Medr a'r cyrff cyllido a'i rhagflaenodd, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y Cynghorau Ymchwil a'r Swyddfa Gartref i ffurfio colegau gwirfoddol a grant uniongyrchol. |
| **Buddiant y trysorlys** | Y buddiant amodol yn y darparydd a ddelir gan Medr, sy'n codi'n unol â chanllawiau Medr o ddefnyddio cyllid y trysorlys ar ffurf cyllid cyfalaf penodol. Gall buddiant o'r fath greu rhwymedigaeth ar y darparydd i ad-dalu grant, neu gydnabod atebolrwydd, os ceir amgylchiadau eithriadol penodol. |
| **CRhA** | Y Cod Rheoli Ariannol |
| **SAA** | Safon Adrodd Ariannol |
| **Corff llywodraethu** | Cyngor y brifysgol, bwrdd llywodraethwyr neu gorff arall sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli a gweinyddu refeniw ac eiddo'r darparydd, a chynnal ei faterion |
| **Grŵp** | Fel y'i diffinnir o dan a. 1159(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006. Nid yw felly'n gyfeiriad at grŵp endid budd cyhoeddus |
| **HESA** | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| **Cod Llywodraethu** | Y Cod Llywodraethu a gyhoeddwyd gan Bwyllgor |

| | |
|---|---|
| **Addysg Uwch** | Cadeiryddion Prifysgol (www.universitychairs.ac.uk) |
| **Darparydd** | Darparydd addysg uwch neu ddarparydd addysg bellach |
| **Y darparydd** | (enw'r darparydd) |
| **Gweinidog** | Y Gweinidog Addysg a Sgiliau |
| **Mis** | Mis calendr |
| **SORP** | Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education (www.fehesorp.ac.uk) |
| **GAA** | Gwerth am arian |
| **Deddf 1992** | Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 |

Wrth gyfeirio at y **sefyllfa ariannol**, **datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol** neu **fenthyciadau'r sefydliad** yr hyn a olygir yw sefyllfa ariannol, datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol neu fenthyciadau cyfunol y sefydliad a'i is-gyrff, fel y'u diffiniwyd yn Neddf Cwmnïau 1985 ac y'u diwygiwyd yn Neddf Cwmnïau 1989, ac yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government